# Y CYNGOR DYDD IAU, 6 GORFFENNAF 2023

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd R.Medwyn Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Beca Roberts (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Glyn Daniels, Dafydd Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Annwen Hughes, Louise Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, Kim Jones, Linda Ann Jones, June Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Gareth Coj Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Elfed P Roberts, Gareth A.Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rob Triggs, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams a Sasha Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Anwen Davies, John Brynmor Hughes, Linda Morgan, John Pughe, John Pughe Roberts, Angela Russell, Einir Wyn Williams ac Eirwyn Williams.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 4 Mai, 2023 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

- Y Cynghorydd Angela Russell a'r teulu ar farwolaeth ei chwaer;
- Y Cynghorydd Gwynfor Owen a'r teulu ar golli ei dad-yng-nghyfraith;
- Dafydd Gibbard, y Prif Weithredwr, a'r teulu ar golli ei fam;
- Teulu Joshua Lloyd Roberts, 19 oed, a fu farw mewn amgylchiadau trychinebus yng Nghaernarfon yn ddiweddar;
- Teulu Gareth Fon Jones, Prifathro Ysgol Dolbadarn, Llanberis (mab cyn-Gadeirydd y Cyngor hwn, sef y cyn-Gynghorydd Eric M Jones) a fu farw'r wythnos ddiwethaf. Rhoddwyd gair o deyrnged iddo gan y Prif Weithredwr.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Llongyfarchwyd:-

- Rachel Atherton o Ddinas Mawddwy ar ei llwyddiant byd-eang ym maes beicio mynydd drwy ennill rownd gyntaf Pencampwriaeth y Byd yn y Swistir ar ôl pedair blynedd o beidio rasio oherwydd anaf.
- Pawb o Wynedd a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri yn ddiweddar, yn enwedig Gwydion Rhys o Rachub, Y Prif Gyfansoddwr a Tegwen Bruce-Deans o Fangor, a gipiodd y Gadair.

Dymunwyd yn dda i Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd a gynhelir ym Moduan y mis nesaf.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. CWESTIYNAU

*(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)*

### (A) Cwestiwn gan Aelod o'r Cyhoedd

**Cwestiwn gan Mr Ieuan Wyn (ar ran Cylch yr Iaith) (cyfeiriad wedi'i ddarparu yn unol â gofynion y Cyfansoddiad)**

"O ystyried bod Adran Addysg a Chabinet y Cyngor wedi caniatáu sefyllfa lle bo –

- plant yn cael eu trochi yn unedau'r gyfundrefn drochi am 20% yn llai o amser nag o'r blaen, a hynny drwy gwtogi'r amser y mae'r plant yn yr unedau o 5 diwrnod yr wythnos i 4;
- cwtogi staffio unedau trochi o ddau athro i un;
- unedau trochi yn gorfod cau am gyfnodau o ganlyniad i absenoldeb staff a phrinder athrawon llanw cymwys;
- a hefyd, oherwydd y lleihad, cyfyngu ar allu staff unedau trochi i fynd i'r ysgolion i roi arweiniad a chymorth,

onid ydi hi'n wir fod Adran Addysg a Chabinet y Cyngor wedi bod yn gyfrifol am wanychu effeithiolrwydd y ddarpariaeth drochi, a bod angen cywiro'r sefyllfa?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Beca Brown**

"I ateb y pwyntiau unigol i ddechrau, ers i'r weledigaeth newydd yma ar gyfer y gyfundrefn drochi fod yn weithredol, mae asesiadau athrawon yn nodi bod cyflawniad y plant yn gyson hefo'r drefn a fu, a'u bod yn cael gwasanaeth cystal, os nad gwell, na'r drefn a fu. Hefyd, mae sylwadau'r penaethiaid yn nodi bod y plant yn gwerthfawrogi gallu cadw cysylltiad hefo'u mam ysgol, a buaswn i'n tybio y bydd y drefn honno yn ei gwneud yn haws dwyn perswâd ar rieni i yrru eu plant i'r canolfannau trochi. Nid oes gennym yr hawl, wrth gwrs, i orfodi unrhyw deulu i yrru eu plant yno, ac rwy'n meddwl ei bod yn naturiol i riant boeni am blentyn yn colli cysylltiad hefo'u cyfoedion, a hynny, ar adeg, efallai, pan fo plentyn newydd symud i ardal newydd ac yn trio gwneud ffrindiau.

O ran y strwythur staffio, mae'r drefn newydd yn creu cyfle i greu un tîm sy'n cydweithio ac yn gallu datblygu'n barhaus, ac mae cytundebau parhaol, wrth gwrs, yn rhoi sicrwydd a chysondeb. Nid oes yr un uned drochi wedi gorfod cau oherwydd absenoldeb na phrinder athrawon cymwys. Mae'r staff yn mynd i ysgolion prif lif bob wythnos ac maen nhw hefyd yn treulio cyfnodau ar ddiwedd pob cwrs yn rhoi cefnogaeth ac ôl-ofal i'r plant.

Ar bwynt cyffredinol, ein blaenoriaeth ni bob tro ydi rhoi'r plentyn yn ganolog ac wrth galon unrhyw gynlluniau er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn y lle gorau un i ddysgu a chaffael y Gymraeg, fel mae pob un ohonom ni yn yr ystafell yma eisiau rwy'n siŵr. A hefyd mae'n werth nodi bod tîm llawn o arolygwyr Estyn wedi bod yn arolygu'r Awdurdod yr wythnos ddiwethaf, ac un o'r pethau roedden nhw'n craffu'n benodol arno oedd maes y Gymraeg, gan gynnwys y maes trochi, a bydd canfyddiadau'r arolygiad hwnnw yn gyhoeddus ym mis Medi. Rwy'n edrych ymlaen yn arw iawn i'w ddarllen yn fanwl, a byddaf yn annog i bawb arall ei ddarllen hefyd pan fydd yn gyhoeddus."

**Cwestiwn Atodol gan Mr Ieuan Wyn (ar ran Cylch yr Iaith)**

"O ystyried bod cymorthyddion yn cael ymweld â'r ysgolion i roi arweiniad ar y pumed diwrnod, a hynny heb eu bod wedi dilyn cwrs yn y dull trochi na gloywi iaith, ac na fydd hi'n bosib' i chwe uned drochi yn y sir sicrhau bod pontio effeithiol rhwng yr unedau a'r ysgolion ar y pumed diwrnod, yn enwedig pan fo ond un athro ymhob uned a phan fo 79 o ysgolion cynradd ac 14 o ysgolion uwchradd yn y sir, a gan nad oes gan yr Adran Addysg strwythur i sicrhau athrawon wrth gefn, fel bod Uned Drochi Llangybi, er enghraifft, wedi gorfod cael dros 6 athro llanw gwahanol di-hyfforddiant mewn un tymor, oni ddylid ail-edrych ar fodel y drefn newydd a chywiro'r diffygion?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

"Rwy'n meddwl ei bod yn briodol i dynnu sylw yn y lle cyntaf at y ffaith eich bod chi wedi bod yn rhan o gyflwyno'r gyfundrefn yma'n wreiddiol, ac rydym yn ddiolchgar iawn am ymdrechion pawb sydd wedi ymwneud â'r gyfundrefn dros y blynyddoedd. Rwy'n croesawu eich angerdd amlwg dros y maes hollbwysig yma, ond yr hyn sy'n fy ngwneud yn drist yw bod tôn y cwestiynu yma yn tanseilio ymdrechion cwbl arwrol y tîm sy'n gweithio hefo'r plant yma, yn tanseilio cefnogaeth eu teuluoedd ac yn tanseilio llwyddiannau rhyfeddol y plant eu hunain, sy'n llwyddo mor wych i godi'r Gymraeg mewn bur amser.

Fel y gwyddoch eich hun, mae beth sy'n cael ei gyflawni yn y canolfannau yma yn wirioneddol glodwiw. Rwy'n meddwl am blant fel Chloe o Lanzarote, sy'n rhugl ei Chymraeg ar ôl ond cychwyn hefo ni fis Medi diwethaf. Mae'r gyfundrefn drochi yn flaenoriaeth gennym ni yng Nghynllun y Cyngor, fel y gallwch weld. Mae yna awydd gan Lywodraeth Cymru i rowlio allan ein cyfundrefn ni yn genedlaethol oherwydd ei fod yn arfer mor dda. Mae yna waith strategol blaengar a phwysig yn digwydd er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn yn datblygu ac yn moderneiddio o hyd, fel y gwelodd y rhai hynny ohonoch a fanteisiodd ar y cyfle i ymweld â [phentref rhithiol] Aberwla dros ginio.

Mae'r awgrym ein bod yn fwriadol wanychu cyfundrefn rydym ni for falch ohoni ac mor angerddol drosti yn fy ngwneud yn drist, ac mae'r gwrthwyneb yn wir, oherwydd pe na fyddem yn datblygu a gwella, ni fyddai gennym y cyfle i lansio Aberwla yn yr Eisteddfod eleni fel rhywbeth newydd ac arloesol. A gyda hynny o eiriau, fedra'i ond gwahodd pob un sydd yma heddiw i alw draw i'r lansiad ar ddydd Mawrth yr Eisteddfod, a gai hefyd annog pawb i fynd ati i ddarllen arolygiad Estyn o'r

ddarpariaeth drochi. Rwy'n siŵr y cawn ni sgyrsiau ar ôl hynny, ar ôl i chwithau hefyd gael cyfle i'w ddarllen, ac rwyf wastad yn agored i gael sgyrsiau am y glo man ac am eich pryderon."

**(B) Cwestiynau gan Aelodau Etholedig**

**(1) Cwestiwn Y Cynghorydd Dewi Jones**

"Ydi'r Cyngor yn ystyried lefelau amddifadedd mewn cymuned wrth benderfynu faint o ddarpariaeth mae cymuned yn ei dderbyn gan Wasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd?"

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

"Cwestiwn pwysig iawn. Fel rhan o'r broses ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid, fe gwblhawyd darn o waith Effaith Cydraddoldeb, wrth gwrs, ac fe nodwyd bryd hynny'r pwysigrwydd o gynnal swyddfa a chanolfan yn y ddwy gymuned fwyaf difreintiedig yn ein sir ni, sef Caernarfon a Maesgeirchen. Mae'r gwasanaeth yn parhau i fod am ddim, ac mae yna bresenoldeb ymhob ysgol. Mae'r gwasanaethau wedi cyrraedd 42 o gymunedau ar draws y sir, gan gynnwys, wrth gwrs, cymunedau difreintiedig. Wedi dweud hynny, rwyf wastad yn agored i glywed syniadau am sut i gyrraedd pobl ifanc mewn ffyrdd mwy effeithiol. Nid pobl anodd eu cyrraedd, fel maen nhw'n cael eu galw, ydi'r rhain, wrth gwrs, ond pobl sydd, efallai, ddim yn cael eu cyrraedd yn effeithiol gan wasanaethau bob amser.

Yn wir hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i'r aelod ac i'r cynghorwyr sir a thref eraill yng Nghaernarfon am y gwaith maen nhw'n wneud yn Porthi'r Dref, sef noson i bobl ifanc sy'n cynnig pryd o fwyd, lle cynnes a chroesawgar a chyfle i gymdeithasu. Noson ddi-ffril faswn i'n ddweud ydio, ond sy'n mynd o nerth i nerth. Yn digwydd bod, mi wnes i bicio i mewn neithiwr i ddweud helo a gweld beth oedd yn mynd ymlaen, ac mae'n amlwg yn noson sy'n cael ei gwerthfawrogi'n ofnadwy gan y criw o bobl ifanc oedd yno. Pob clod i Geraint, y '*chef'* am y bwyd, y '*chicken nuggets'* sy'n '*banging'* yn ôl rhai o'r bobl ifanc oedd yna neithiwr a'r cacennau hefo llysiau cudd! Wedyn diolch i chi bois am eich gwaith.

Fe fyddwch chi'n ymwybodol hefyd bod hwn yn flaenoriaeth gennym ni yng Nghynllun y Cyngor – Ymestyn Cyfleoedd Chwarae a Chymdeithasu i Blant a Phobl Ifanc y Sir. Rwy'n meddwl bod hynny'n nodi ein hawydd i gael y gwaith yma'n iawn. Mi fydd yna gasglu data a barn yr holl randdeiliaid a bydd hynny yn rhoi arweiniad i ni o ran beth sydd angen ei ddatblygu a'i wella, a byddwn yn croesawu mewnbwn pobl fel yr Aelod i'r broses yna pan ddaw."

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Dewi Jones**

"Ydi'r Aelod Cabinet yn cytuno â mi bod y wasg a chymdeithas yn gyffredinol yn aml yn anghofio am bobl ifanc, ac yn euog o'u darlunio mewn golau drwg, a bod angen i ni ddathlu llwyddiannau pobl ifanc yn llawer amlach er mwyn ceisio newid y darlun yma, sy'n aml yn un anghywir?"

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

"Fedra'i ddim cytuno mwy, a bod yn onest. Rwy'n meddwl yn aml fod pobl ifanc yn cael eu gweld fel problem, sy'n ganfyddiad afiach a dweud y gwir, a'r geiriau '*hard to reach'* yna rydym ni'n eu clywed o hyd. Mae geiriau mor bwysig ymhob cyd-destun, ond yn enwedig yn y cyd-destun yma. Er enghraifft, sonnir yn aml am '*a gang of youths'*, ond pam defnyddio'r gair '*gang'*? Fyddech chi byth yn dweud '*a gang of*

*pensioners'* neu a '*gang of fifty year olds'* na fyddech? Wedyn rwy'n meddwl bod y ffordd mae'r wasg yn darlunio pobl ifanc yn aml yn creu mwy o broblem na'r hyn sydd yna mewn gwirionedd, nes bod pobl ifanc yn cael eu gweld fel problem, sydd ddim yn wir.

Flynyddoedd yn ôl roeddwn yn rhan o brosiect yn ward Peblig, o'r enw Cegin Cofi, dan arweiniad y Cynghorydd Tref Kenny Khan. Rwy'n gwybod beth ydi'r ddelwedd sydd gan bobl o bobl ifanc, o griwiau ifanc, o hogiau ifanc mewn '*hoodies'* ac ati, ac mae'n ddelwedd wallus ac annheg yn aml iawn. Beth sydd raid i ni gofio rŵan hefyd ydi mai'r oedran yma, yr arddegau, ydi un o'r grwpiau sydd wedi cael eu heffeithio bennaf gan Cofid. Felly, mae angen i ni roi ffocws cyson a manwl ar ein pobl ifanc, sydd yn eu blynyddoedd ffurfiannol, ac sy'n trio ffendio eu hunain yn y byd, a hynny, yn aml iawn, yn erbyn ffactorau nad oes gennym ni'r syniad lleiaf beth ydynt. Gan hynny, rwy'n croesawu unrhyw beth sy'n cadw'r ffocws yna ar bobl ifanc ac yn amlygu eu lleisiau, ac rwy'n gwybod mod i wedi dweud hyn o'r blaen yma, ond hoffwn dynnu sylw at Brosiect 15. Mae yna 3 enillydd y prosiect hwnnw - lleisiau sy'n ysbrydoli pobl ifanc. Mae o ar Facebook, Instagram, ac ati, - Prosiect 15 - 3 o bobl ifanc yn siarad. Ia, gadewch i ni amlygu lleisiau ein pobl ifanc ni."

**(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Huw Rowlands**

"Pa gynlluniau sydd ar waith er mwyn gwella'r trefniadau casglu sbwriel yng Ngwynedd, fel bod y diffygion presennol yn cael eu goresgyn, a chasgliadau yn cael eu gwneud ar amser ac yn unol â'r gofynion statudol?"

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"Diolch am y cwestiwn. Fel mae rhai aelodau'n gwybod, o bosib', mae 'na waith yn digwydd ar hyn o bryd i drawsnewid y gwasanaeth casglu gwastraff, ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r gweithlu, goruchwylwyr a'r undebau i newid y ffordd o weithio.

Roedd lefelau salwch uchel a threfniadau hanesyddol yn golygu nad oedd y gwasanaeth yn gwneud y defnydd gorau o oriau gwaith cynhyrchiol yn y gorffennol. Mae'n debyg nad oedd ein trigolion wedi gweld gwahaniaeth mawr yn eu casgliadau gan fod y gwasanaeth yn rhoi adnoddau ychwanegol i mewn i oresgyn y problemau hynny. Yn hanesyddol, roedd hyn yn arwain at orwariant sylweddol, ac yn wir, Cyngor Gwynedd oedd yr awdurdod ail ddrytaf yng Nghymru o ran gwariant fesul cartref ar wasanaethau gwastraff y llynedd.

Er mwyn ceisio delio hefo hyn, rydym ni wedi bod, dros y misoedd diwethaf, yn mynd drwy broses o ail ddylunio'r gwasanaeth casglu, a hwn ydi'r prif reswm pam bod methiannau casglu wedi bod yn digwydd, yn enwedig yn ardal Arfon.

Fodd bynnag, mae'r gwaith o osod y sylfaen rheolaethol wedi ei gwblhau a phenaethiaid hefyd bellach wedi cyfarfod a llythyru pob aelod o staff er mwyn cadarnhau disgwyliadau. Mae'r trefniadau newydd sydd wedi eu rhoi yn eu lle i'w gweld yn dwyn ffrwyth, ac rwy'n disgwyl y bydd trigolion Gwynedd yn gweld gwelliant yn eu casgliadau yn fuan gobeithio.

Efallai na fydd y gwasanaeth yn berffaith ar y dechrau, ond os bydd y criwiau wedi methu casglu ar y diwrnod arferol, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i'w gasglu ar y diwrnod canlynol. Pan fydd pethau'n mynd o chwith, rydym ni wedi dechrau trefn newydd o gyfathrebu hefo'r cymunedau drwy roi gwybodaeth amserol ar y cyfryngau cymdeithasol ac i aelodau lleol, ac rwy'n siŵr y bydd nifer ohonoch wedi dechrau derbyn y nodyn yna yn dweud bod y casgliad yna wedi'i golli ac y bydd yna geisio casglu'r diwrnod canlynol.

O ran staffio, mae dwy swydd newydd wedi cael eu hysbysebu'n ddiweddar a fydd o help i oresgyn unrhyw broblemau staffio yn y tymor byr. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ail-edrych ar ei fflyd, er mwyn sicrhau ei fod hefo'r cerbydau mwyaf addas a dibynadwy. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn technoleg fydd yn cynorthwyo'r arweinyddion tîm i reoli'r cylchdeithiau yn fwy effeithlon.

Felly, ymddiheurwn am yr anhwylustod mae'r ail-drefnu yma wedi ei achosi i drigolion Gwynedd, ond rydw i'n ffyddiog y cawn wasanaeth y gallwn fod yn falch ohono unwaith eto, i'n staff a'r trigolion."

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Huw Rowlands**

"Ydi'r Aelod Cabinet yn hyderus bod y trefniadau newydd a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella'r gwasanaeth yn ddigon rhagweithiol, ac yn ddigon grymus i sicrhau gwelliannau yn gynt, yn hytrach nag yn hwyrach?"

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"Rwy'n cytuno hefo'r rhwystredigaeth sydd wedi bod hefo'r gwasanaeth. Mae wedi effeithio y rhan fwyaf ohonom ni, a finnau yn fy ward fy hun, fel y gweddill ohonom ni. Ydw, mi rydw i'n ffyddiog bod y newidiadau yma yn mynd i ddwyn ffrwyth, ond fel pob newid, mae'n mynd i gymryd amser i setlo i lawr, ond rwy'n gobeithio, mor fuan â phosib', y gwelwn ni wahaniaeth go iawn."

**(3) Cwestiwn Y Cynghorydd Gwynfor Owen**

"Fel un sydd yn cynrychioli dau o'r traethau gorau yn y byd, sef Traeth Llandanwg a Thraeth Harlech, gan hefyd ddatgan bod amryw o draethau eraill yn ein sir yn disgyn i'r un categori, hoffwn ddatgan fy siom nad oedd y Cyngor wedi gwneud cais am Faner Glas i unrhyw un o'n traethau eleni. Gai ofyn y rheswm pam na wnaeth y Cyngor ymgeisio?"

**Ateb – Y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Economi, y Cynghorydd Nia Jeffreys**

"Rydym ni wedi anfon ymateb ysgrifenedig at yr aelod, ac mae ar gael i bob cynghorydd arall yn eich papurau. Mi wnâi ateb drwy gyfeirio at y paragraff olaf. Fel mae'n dweud, penderfynodd Cyngor Gwynedd, Cyngor Ynys Môn a Chyngor Conwy beidio cyflwyno ceisiadau ar gyfer Baner Las. Nid yw Cyngor Gwynedd wedi dathlu Gwobrau Baneri Glas yn ystod dwy allan o'r tair blynedd ddiwethaf, ac er hynny, mae ein traethau wedi bod ymysg y prysuraf erioed. Dim ond un cynllun achredu yw'r Faner Las sy'n gwerthuso traethau ar sail meini prawf amrywiol, na fyddai o reidrwydd yn dathlu rhinweddau arbennig traethau Llandanwg a Harlech fel y cyfeirir atynt.

Mae ein traethau mor lân, diogel a phoblogaidd ag y buont erioed. Mae ansawdd dŵr yn cael ei fesur yn rheolaidd, gyda llawer o draethau'n cyrraedd y safon uchaf, sef 'rhagorol'. Mae ein traethau yn parhau i fod ymhlith y gorau yng Nghymru, neu'r byd, a byddant yn parhau i ddenu miloedd o ymwelwyr a phobl leol eto'r haf yma".

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Gwynfor Owen**

"Gai ofyn am sicrwydd gan yr Aelod Cabinet y bydd monitro ein traethau yn cario ymlaen fel petasem yn ymgeisio am y Faner Las, ac wrth gwrs hefyd, mynd llawer ymhellach gyda rhai pethau?"

**Ateb – Y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Economi, y Cynghorydd Nia Jeffreys**

"Fedra'i sicrhau y bydd y gwaith monitro a chyhoeddi ansawdd dyfroedd ymdrochi ar hyd yr arfordir yn parhau yn yr un modd, a hoffwn hefyd sicrhau y bydd yr Adran yn ystyried cyfleoedd perthnasol i gyflawni gwelliannau parhaus i'r dyfodol."

**(4) Cwestiwn Y Cynghorydd Jina Gwyrfai**

"Mewn cydweithrediad efo Cadw Cymru'n Daclus mae llawer o gymunedau Gwynedd yn ceisio lleihau 'sbwriel. Mae'r 'Tîm Tacluso' yn gosod biniau ychwanegol mewn mannau strategol.

Ond, mae problem 'sbwriel yn cael ei gwaethygu'n aml, er yn anfwriadol, gan y Cyngor hwn gan fod:

i) Loriau 'sbwriel/ailgylchu yn 'sbydu 'sbwriel wrth wibio trwy'r ardal;
ii) Contractwyr torri glaswellt yn gadael y toriadau a 'sbwriel sydd wedi dod i'r golwg ar ochr y lôn.

Hoffwn wybod pa fesurau sydd ar y gweill i wella'r sefyllfa hon?"

**Ateb – Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, y Cynghorydd Berwyn Parry Jones**

"Mae'r ymateb ysgrifenedig wedi ei rannu, ond mi wnâi gyfeirio at un neu ddau o bwyntiau. Yn y lle cyntaf, hoffwn ddiolch i'r Cynghorydd Dafydd Meurig a'r Adran Amgylchedd am ddarparu'r ymateb i ran 1 y cwestiwn yn ymwneud â lorïau casglu 'sbwriel. Fel y gwelwch, mae hon wedi bod yn broblem hanesyddol a bod y cartgylchu ar gefn y lorïau sydd yn cael ei ddefnyddio ddim y gorau ac felly bydd yr Adran yn edrych ar gael rhai mwy addas i'r gwaith. Hefyd, mae tueddiad, wrth gwrs, ymhlith rhai o'r gweithlu i symud ymlaen o un lleoliad i'r llall heb gau'r drysau. Bydd y swyddogion yn atgoffa'r gweithlu i sicrhau bod y drysau cefn wedi cau cyn symud ymlaen.

Symud i ail ran y cwestiwn, sy'n gyfrifoldeb yr Adran Priffyrdd, mae amryw wedi awgrymu y dylai'r contractwyr sy'n torri'r gwair hefyd godi unrhyw 'sbwriel sy'n dod i'r golwg ar ôl y torri, ond nid yw hyn yn rhan o'r cytundeb, a byddai ychwanegu hyn yn golygu costau ychwanegol sylweddol. Beth sydd i fod i ddigwydd ydi bod y contractwyr torri gwair yn gadael i'r swyddogion wybod lle maent yn torri, a bydd ein gangiau ni yn eu dilyn i godi 'sbwriel. Byddwn yn gadael i'r contractwyr wybod y bydd rhaid iddynt gydymffurfio gyda hyn. Wrth gwrs, mae'r broblem yn waeth yn yr haf pan mae'r ymwelwyr yma. Felly, rwy'n gobeithio y cawn yr hawl cyn bo hir i godi Treth Twristiaeth, fel bod adnodd ychwanegol ar gael i ddelio gyda'r sefyllfa, a sawl sefyllfa arall debyg, oherwydd nid yw'n deg bod trethi trigolion Gwynedd yn cael ei ddefnyddio i godi 'sbwriel ychwanegol sydd wedi deillio o ymwelwyr i'r sir.

I gloi, hoffwn roi pwyslais ar y paragraff olaf, sef addysg. Rwyf o hyd yn clywed pethau tebyg i "*pam di'r Cyngor ddim yn codi 'rubbish' mae pobl yn lluchio o'u ceir yn fwy aml'* Nid wyf byth yn clywed pobl yn gofyn pam bod pobl yn lluchio 'sbwriel allan o'u ceir yn y lle cyntaf, a hwn ydi'r ffordd ymlaen yn yr hir-dymor, sef addysgu pobl. Mi wnawn ni gydweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chadw Cymru'n Daclus ac ail-ddechrau ymweld ag ysgolion i gael y neges drosodd nad yw'n dderbyniol i daflu 'sbwriel allan o ffenest y car."

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Jina Gwyrfai**

"Hoffwn wybod a fydd y cynlluniau newydd yn cynnwys cydweithio yn benodol gydag ysgolion a Chadw Cymru'n Daclus, achos mae yna gynllun newydd gan Cadw Cymru'n Daclus, sef Ysgolion Di-sbwriel, a siom i mi oedd clywed mai ond 2 ysgol sydd wedi ymuno â'r cynllun yng Ngwynedd ar hyn o bryd."

**Ateb – Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, y Cynghorydd Berwyn Parry Jones**

"Yn sicr mae yna waith i'w wneud hefo ysgolion, ac fel roeddwn yn sôn cynt, addysg ydi'r ffordd ymlaen. Mi wnâi sicrhau bod yr Adran yn cysylltu hefo'r ysgolion a gyda Chadw Cymru'n Daclus i hyrwyddo'r prosiect yma."

**(5) Cwestiwn Y Cynghorydd Elin Hywel**

"Gyda chynnydd sylweddol mewn amlygedd defnydd 'Vapes' gan bobl ifanc, yn benodol gan bobl ifanc oed addysg uwchradd, pa gamau mae'r Cyngor yn eu cymryd i gefnogi ein hysgolion uwchradd i ddod i'r afael â'r her newydd a phryderus yma?"

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

"Diolch am y cwestiwn. Ydi, mae'n rhywbeth sy'n codi'i ben yn aml iawn. Mae'n broblem gynyddol, a dweud y gwir, yn ein hysgolion uwchradd ni, a phwy a ŵyr, efallai y bydd yn broblem fydd yn dechrau codi yn y cynradd fel mae'r pethau yma yn dueddol o fynd. Pan fyddaf yn mynychu cyfarfodydd penaethiaid, mae'n un o'r pethau sy'n dod i fyny'n gyson yno wrth i ni godi'n pryderon.

Mae yna bethau fedar ysgolion eu gwneud, wrth gwrs, fel adolygu prosesau, ac ati, ac addasu'r cwricwlwm i gyfarch y pryderon ac addysgu, ond mae angen cefnogaeth gan yr Awdurdod hefyd, ac rydym ni'n aros cadarnhad am arian grant i gefnogi'r maes a chomisiynu darn o waith er mwyn trio gweld beth y gellir ei wneud. Byddai hynny'n digwydd ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Be di'r Sgôr, Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.

Wrth gwrs, gan fod hwn yn faes newydd, mae ymchwil a data yn brin, ond mi fyddwn yn ceisio bod yn rhagweithiol yn ein hymdrechion i fanteisio ar unrhyw arweiniad newydd neu ymchwil newydd a ddaw yn y maes, ond gallaf eich sicrhau ein bod yn cymryd y pwnc yma o ddifri' ac rwy'n ei glywed o bob cyfeiriad fy hun hefyd."

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Elin Hywel**

"Gan nad oes posib' i ni wybod effeithiau hir-dymor 'vapio' ar iechyd, a pha mor hawdd ydi hi i 'vapio' mewn unrhyw ardal, y tu fewn neu tu allan, pa gamau mae'r Adran Addysg wedi cymryd i addysgu athrawon, disgyblion, ond hefyd rhieni ar y risgiau sylweddol sydd i 'vapio'?"

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

"Eto, mae yna waith i'w wneud ar yr elfen addysgu, ond eto hefyd, mae'r wybodaeth yn gymharol brin ar hyn o bryd, ond rwy'n meddwl bod rhaid i ni fynd ati'n rhagweithiol i ffendio hynny o wybodaeth sydd yna ar gael i ni.

Rydych chi'n gwneud y pwynt ynglŷn â pha mor hawdd ydi hi i 'vapio', boed hynny y tu fewn neu'r tu allan. Mae hynny'n sicr yn wir, ac mae honno'n sgwrs arall eto rydym ni wedi gael yn y cyfarfodydd penaethiaid ynglŷn â thoiledau ysgolion. Mae fano'n leoliad lle mae plant a phobl ifanc yn dueddol o fynd i 'vapio'. Wedyn rydym ni wedi

ymrwymo i wneud darn o waith sy'n edrych oes yna rywbeth fedrwn ni wneud o ran steil toiledau, pa mor agored neu beidio ydyn nhw, fel bod criwiau o blant sy'n mynd i'r toiledau i 'vapio' yn haws i'w gweld. Felly mae 'na ddarn bach o waith ynglŷn â'r holl leoliadau 'vapio' yn mynd i gael ei wneud gennym ni fel Adran.

Hefyd, o ran y 'sbwriel mae 'Vapes' yn creu, rwy'n siŵr bod unrhyw gynghorwyr sy'n hel 'sbwriel wedi gweld y tameidiau bach plastig yna yn bob man. Dydi hynny ddim yn amgylcheddol-gyfeillgar chwaith nagdi? Ond eto, hoffwn sicrhau'r aelod bod yna waith yn mynd i gael ei wneud ar hyn."

**(6) Cwestiwn Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

"O ystyried:-

- Na fu unrhyw newid sylweddol i bolisi addysg Gymraeg Gwynedd yn ystod yr ugain mlynedd ddiwethaf i geisio gwrthweithio shifft iaith a'r breuo parhaus, o gyfrifiad i gyfrifiad, ar y gymdeithas Gymraeg weddillol,
- Ac wedi iddi ddod i'r amlwg nad yw'r Adran Addysg yn monitro cyfrwng yr addysg yn ysgolion y sir,
- Ac yn wyneb yr ansicrwydd ynghylch union nifer y disgyblion yn y sir sy'n cael addysg drwy gyfrwng y Saesneg

onid ydy hi'n bryd gafael ynddi a rhoi ystyriaeth ddifrif, o'r newydd i gynyddu'r ddarpariaeth ym mhob ysgol uwchradd yng Ngwynedd a oedd gynt yng nghategori 2A neu 2B fel ei bod yn cyfateb i'r ddarpariaeth mewn ysgolion Cymraeg 3P (hynny yw 100% o'r plant yn gwneud o leiaf 90% o'u haddysg yn Gymraeg) a chyflwyno cyfundrefn fonitro gyfaddas rhag blaen i sicrhau hynny?"

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

"Rwy'n mynd i gychwyn drwy gyfeirio at fy ymateb i gwestiwn digon tebyg a gefais gan y Cynghorydd Rhys Tudur yn y Cyngor llawn diwethaf, ac os caf wneud hynny, hoffwn nodi mai mater lleol i ni yng Ngwynedd ydi ein Polisi Iaith Addysg, mai fframwaith gweinyddol yn unig ydi'r drefn gategoreiddio a'n bod ni'n bwriadu mynd ati i ddiweddaru'r Polisi Iaith er mwyn adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi mynd rhagddynt ym myd addysg ers gosod y Polisi Iaith.

Rydym ni o ddifri am y ddarpariaeth yn y sir yma, a dyna pam ein bod yn diweddaru'r Polisi Iaith. Mae'r ffaith ein bod cymaint o ddifri' am y ddarpariaeth yma yn cael ei ddangos, rwy'n meddwl, yn y ffaith ein bod yn diweddaru'r Polisi Iaith, ein bod yn casglu gwybodaeth o fewn yr Adran am y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws y sir a'n bod ni wedi sefydlu Tasglu Darpariaeth Cymraeg Ysgolion Gwynedd i edrych ar yr union bethau mae'r aelod yn sôn amdanynt. Gan hynny, rwy'n edrych ymlaen at weld ffrwyth llafur y rhai sy'n ymgymryd â'r darnau yma o waith, nifer ohonynt yn y stafell yma, ac i weld pa argymhellion ddaw yn eu sgil."

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

"O ystyried bod a wnelo'r mater yma â'n parhad ni fel pobl, ac o ystyried bod y mater yn bur syml, er gwaethaf y cymhlethdod technocrataidd sydd ynglŷn â'r gyfundrefn, fyddai'r Aelod Cabinet yn barod i ddatgan pa mor ddymunol fyddai cyfundrefn addysg lle mae 100% o blant y sir yn cael 90% o'u haddysg yn Gymraeg, h.y. pa mor ddymunol yn ei golwg hi fyddai dynodi'r ysgolion yn y sir yn ysgolion 3P fel sydd mewn siroedd eraill?"

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

"Rydw i wedi dweud sawl gwaith beth yw fy marn i am ysgolion 3P a pham nad wyf yn meddwl eu bod yn addas i'r sir yma, ac nid wyf am ddiflasu pawb yn y 'stafell drwy fynd drwy hynny eto.

Rwy'n meddwl mai'r hyn sydd gennym ni yma ydi '*clash'* diwylliannol, neu '*clash'* steils, o bosib'. Rwy'n meddwl ein bod o'n dau yn dymuno'r un pethau yn y bôn, sef i wella, i rymuso ac i ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg er mwyn ein parhad ni, fel rydych chi'n dweud yn glir iawn. Rwy'n dweud hyn 'chydig yn dafod yn y boch, efallai, ond mae'n ymddangos eich bod chi eisiau mynd ati hefo pastwn, lle rwyf innau eisiau mynd ati mewn ffordd fydd, yn y pen draw, rwy'n meddwl, yn fwy llwyddiannus, drwy gydweithio, bod yn gynhwysol, drwy ddylanwadu a mynd â phawb hefo ni ar y siwrne yma. Rwy'n gwybod y byddwch chi'n meddwl rŵan mai rhyw hen eiriau meddal a '*fflyffi'* ydi pethau fel annog a chefnogi a chydweithio, ac ati, ond beth sydd ynghanol y maes cymhleth yma ydi pobl, teuluoedd Gwynedd, ac rydym ni i gyd fel bodau dynol yn un uwd o bryderon, o ansicrwydd, o ddyheadau a hefyd rhagfarnau - gadewch i ni fod yn onest, pob un ohonom ni!

Mae pethau fel newid categori hefyd - rydych chi'n sôn am bethau technegol - mae newid categori yn newid canran darpariaeth, ayb, ac maent i gyd yn gofyn am ymgynghori llawn hefo ysgolion a phob math o brosesau statudol o gwmpas y ddeddf trefniadaeth ysgolion, hefo heriau recriwtio yn broblem. Mae'r hyn rydych chi'n ofyn amdano yn agor y drws i heriau na fyddem, o bosib' yn falch ohonyn nhw. Wedyn, hyd yn oed o dynnu pob un o'r rhwystrau, y materion yna oddi yna, nid wyf o blaid diwylliant pastwn. Nid yw hynny'n golygu mod i'n mynd i fod yn '*soft'* ar fy nyhead i, sydd yr un fath â'ch dyhead chi yn y bôn, sef i rymuso darpariaeth y Gymraeg, a thrwy hynny rymuso'r Gymraeg yn y sir yma. Fodd bynnag, tra mod i'n ddigon ffodus o fod yn dal y rôl yma, wnâi fyth wneud unrhyw beth fyddai'n amharu ar allu pob un plentyn yn y sir yma i gael mynediad at addysg Gymraeg, a'm dyhead mwyaf bob amser ydi gweld gweddill Cymru yn mynd yn debycach i Wynedd, gan gynhyrchu siaradwyr Cymraeg sydd yn falch o'u hiaith ac yn ei defnyddio.

Fodd bynnag, gan mod i'n gwybod nad ydych chi'n hoffi pethau meddal a '*fflyffi'*, mae gen i rywbeth 'chydig bach caletach, sef data o lawr ein dosbarthiadau a gan ein hysgolion uwchradd ni. Mae hwnnw wedi dod i'm llaw yn ddiweddar, felly rhag i mi gael unrhyw beth yn anghywir, mi wnâi ddarllen o e-bost, os gai. "*O edrych ar ffigurau ysgol gyfan ar draws y sir, yn unol â diffiniad y drefn gategoreiddio, mae 'na dros 70% o blant uwchradd Gwynedd yn cael o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol cwricwlaidd ac allgyrsiol yn Gymraeg. Heb y ddwy ysgol drosiannol, y rhai 3T, mae dros 90% o blant uwchradd Gwynedd yn cael o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol cwricwlaidd ac all-gyrsiol yn y Gymraeg*". Rwy'n falch iawn o hyn, ac rwy'n meddwl ei fod yn rhywbeth y dylem ni i gyd ymfalchïo ynddo. Mi ddylem ni gefnogi unrhyw ymdrechion i ledaenu'r arfer yma ar draws Cymru. Nid yw hynny i ddweud ein bod yn gorffwys ar ein rhwyfau. Mae yna wastad gwaith i'w wneud a dyna pam ein bod wedi gosod y tasglu i wneud y gwaith maen nhw'n wneud, a dyna pam rydym ni'n hel data yn yr Adran a dyna pam y byddwn ni'n dal i weithio dros y Gymraeg yng Ngwynedd bob amser."

**(7) Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur**

"O ystyried y feirniadaeth a gafodd y Cyngor mewn erthygl ar Cymru Fyw '*Teithio Llesol: Siom nad yw rhai Cynghorau â diddordeb*' a oedd yn ymwneud â cheisiadau am grantiau llwybrau Teithiau Llesol y tu hwnt i'r pot craidd blynyddol o £500,000 y flwyddyn, i ba raddau y mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael grantiau Teithio Llesol sydd tu hwnt i'w pot craidd ar gyfer ardaloedd gwledig tros y 5 blynedd diwethaf, ac i ba

raddau y mae angen i'r Cyngor wella eu strwythurau staffio er mwyn cael mwy o lwyddiant i wneud ceisiadau yn y dyfodol?"

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"Diolch am y cwestiwn. Ydi mae gwella isadeiledd cerdded a beicio yn y sir yn un o flaenoriaethau'r Cyngor a thros y blynyddoedd mae Cyngor Gwynedd wedi cyflawni gwaith fyddwn i'n dadlau sy'n arloesol yn y maes yma, ac wedi sefydlu 116 cilomedr o lwybrau cerdded a beicio ar draws y sir.

Ond wrth gwrs mae hwn yn waith hynod o gostus sy'n gwneud y Cyngor yn ddibynnol iawn ar allu denu arian grant er mwyn cyflawni unrhyw newid sylweddol.

Mae'r galw am yr arian yma gan Lywodraeth Cymru yn gystadleuol iawn, ac er mwyn llwyddo, mae angen cyflwyno tystiolaeth ar sut y byddai unrhyw gynllun yn cyfarch meini prawf y Llywodraeth. Yn anffodus, mae cyfarch y meini prawf yma yn fwy heriol mewn ardaloedd gwledig sydd hefo poblogaeth is.

Eleni cyflwynodd Cyngor Gwynedd gais am arian i adeiladu 3 cynllun sef:

- Llwybr cerdd a beicio rhwng Tywyn ac Aberdyfi gwerth £1.6m;
- Llwybr cerdded a beicio ym Mangor gwerth £1.2m;
- Llwybr cerdded a beicio yng Nghaernarfon gwerth £350,000.

Dim ond un o'r ceisiadau yma fu'n llwyddiannus, sef Llwybr Teithio Llesol ar Ffordd Penrhos, Bangor. Newyddion da i aelodau Bangor, wrth gwrs, a phobl Bangor, ond siomedig i'r gweddill ohonom. O gronfa arall, sef Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, mae yna £280,000 wedi ei sicrhau i wella darpariaeth cerdded a beicio ger Ysgol Godre'r Berwyn yn Y Bala.

Dros y 5 mlynedd ddiwethaf, fe wnaeth y Cyngor gyflwyno ceisiadau am brosiectau gwerth oddeutu £10.5 miliwn, ond dim ond gwerth £1.5 miliwn a dderbyniwyd o'r ddwy gronfa, sef Teithio Llesol a Llwybrau Diogel yn y Gymuned.

Er hynny, rydym hefyd wedi elwa o ddefnyddio'r arian craidd i ddatblygu cynlluniau sydd wedi galluogi'r Cyngor i ddenu arian o ffynonellau gwahanol, yn cynnwys £2.6 miliwn ar gyfer gwelliannau i gylchfan Brynrefail ac £1.8 miliwn ar gyfer gwelliannau Lôn Las Ogwen.

I'r dyfodol, mae swyddogion yn trafod hefo Trafnidiaeth Cymru sut allwn ni gryfhau cynlluniau eraill er mwy sicrhau cyllid ychwanegol. Mae swyddogion yn defnyddio cyfran o'r £500,000 arian craidd Teithio Llesol sydd wedi ei dderbyn i ddatblygu cynlluniau, gyda'r bwriad o allu cyflwyno ceisiadau am grant i'w gwireddu yn y blynyddoedd nesaf.

Tra'n derbyn fod yna heriau capasiti wedi wynebu'r Gwasanaeth dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, rydw i'n hyderus fod y gwaethaf y tu ôl i ni. Yn ogystal, mae Uned Llwybrau a Mynediad y Cyngor wedi ymuno gyda'r Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau yn ystod y misoedd diwethaf ac mae gen i ffydd y bydd y cydweithio agos ar draws y maes yn cryfhau ein hymdrechion yn y maes Teithio Llesol."

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Rhys Tudur**

"O ystyried fod nifer ceisiadau cronnus am wasanaeth yn ymwneud â ffyrdd a thraffig wedi dyblu o fis Rhagfyr i'r Pasg, ac o ystyried fod yr Adran sy'n ymwneud â theithio llesol yn mynd i gael y byrdwn o orfod delio hefo materion fel newid cyflymder drwy

bentrefi i 20mya, a hefyd bod datblygiad llwybrau teithiau llesol, fel yn fy ardal i, wedi oedi ers dros ddegawd, hoffwn ofyn, os ydi'r Adran yn gwegian eisoes, onid yw'n hanfodol ein bod yn recriwtio mwy o staff er mwyn i ni lwyddo i gael mwy o arian teithiau llesol a sicrhau nad oes oedi o ddegawdau maith i weld llwybrau newydd sydd eu mawr angen?"

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"O ran y llwybrau yn ardal yr aelod, sef ardal Afonwen, rwy'n meddwl bod yr Adran wedi rhoi cais i mewn ar gyfer llwybr yn yr ardal yna dair gwaith, ac wedi cael gwrthodiad dair gwaith, ac mae hynny'n dangos pa mor wallus yw meini prawf y Llywodraeth, sy'n ffafrio ardaloedd poblog dros ardaloedd gwledig. Ni allwn roi ceisiadau i mewn dro ar ôl tro ond i'w gweld yn cael eu gwrthod, pan fyddem ni'n gallu ymateb i'r meini prawf yn well drwy gyflwyno ceisiadau mewn llefydd sy'n fwy tebygol o lwyddo. Mae'r frwydr yn y fan honno hefo'r Llywodraeth i ymestyn eu meini prawf i ffafrio ardaloedd gwledig fel Gwynedd.

O ran yr ochr capasiti, rwy'n derbyn bod yna heriau capasiti wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r newid i 20mya, wrth gwrs, yn cymryd adnoddau eithaf sylweddol, a bydd hynny yn dod i ben, gobeithio, pan fydd yr 20mya yn dod i mewn yn yr Hydref. Gwn bod yna drafodaethau wedi bod rhwng y Pennaeth Amgylchedd a'r Prif Weithredwr ynglŷn â delio hefo capasiti yn y maes trafnidiaeth, felly rwy'n gobeithio y gwelwn ni gynnydd yn y fan honno i geisio cwrdd â'r anghenion."

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2022/23**

Croesawyd Mr Eifion Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad blynyddol y pwyllgor am 2022/23.

Nododd y Cadeirydd y bu'n fraint iddo gael ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ym mis Chwefror eleni, ac y dymunai ddiolch yn ddiffuant i'w ragflaenydd yn y Gadair, sef Dr Einir Young, a roddodd wasanaeth ac arweiniad i'r Pwyllgor dros gyfnod o 10 mlynedd fel aelod.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd y Cadeirydd sylw at y ddyletswydd statudol newydd ar arweinyddion grwpiau gwleidyddol, gan ddiolch i'r 3 Arweinydd am eu cydweithio ar y camau cychwynnol sydd wedi'u cymryd i ymdrin â'r ddyletswydd. Pwysleisiodd bwysigrwydd cadw perthynas glos rhwng yr Arweinyddion a'r Swyddog Monitro, gan nodi y byddai'r Pwyllgor Safonau llawn yn trefnu cyfarfod gyda'r Arweinyddion yn y dyfodol agos.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau am ei waith yn ystod y flwyddyn.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

Holwyd sut roedd uwch swyddogion y Cyngor, megis y Swyddog Monitro, yn cael eu safoni. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Mai rôl y Pwyllgor Safonau oedd edrych ar ymddygiad cyhoeddus a'r ffordd mae aelodau etholedig yn ymddwyn fel rhan o'u gwaith.
- Bod yna God Ymddygiad ar gyfer aelodau, a Chod Ymddygiad ar gyfer swyddogion, a bod pawb yn glynu ato bob amser hyd eithaf eu gallu.
- Bod yna drefn reoli perfformiad cwbl ar wahân ar gyfer materion perfformiad swyddogion o ran eu gwaith, a bod hynny'n gwbl ar wahân i'r hyn mae'r Pwyllgor Safonau yn ei wneud.

- Bod rôl y Swyddog Monitro yn rôl statudol a bod deilydd y swydd yn atebol ac yn gyfrifol am y swyddogaeth yna i'r Cyngor llawn. Pe dymunai unrhyw un wneud cŵyn yn erbyn y Swyddog Monitro, byddai gofyn iddynt godi'r mater gyda'r Prif Weithredwr.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2022/23

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ei adroddiad blynyddol mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn Gwynedd yn ystod 2022/23.

Diolchodd y Cyfarwyddwr i'w ragflaenydd yn y swydd, Morwena Edwards, am ei gwaith trylwyr cyn ymadael yn ystod haf 2022, a hefyd i Lois Owens (Uwch Swyddog Gweithredol) am ei gynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi'r adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyfarwyddwr am y cyflwyniad ysbrydoledig sy'n amlygu'r arweiniad mae'n ei roi, a hefyd am yr adroddiad sy'n rhwydd i'w ddarllen ac yn cynnwys enghreifftiau go iawn a hyfryd o'r gwaith sy'n digwydd. Nododd ymhellach bod yr ystadegau ar dudalen flaen yr adroddiad yn frawychus, ond eto'n amlygu pwysigrwydd y gwaith, a phwysleisiodd fod yr aelodau'n hynod o ddiolchgar i'r staff ymroddgar sy'n cyflawni gwyrthiau oddi fewn i'r cyllidebau tynn.

Ategwyd diolchiadau'r Arweinydd gan sawl aelod arall yn ogystal, a chodwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

Mynegwyd gobaith y byddai'r Adroddiad Blynyddol nesaf yn cynnwys y protocol sy'n cael ei ddatblygu gan yr Adran ar hyn o bryd ar sut i helpu pobl sy'n cwympo ac yn methu cael ambiwlans am oriau.

Croesawyd y gwaith sy'n digwydd i sicrhau urddas a pharc i ofalwyr ifanc a holwyd faint ohonynt sydd wedi derbyn y cerdyn adnabod, ac a oes potensial i'w ehangu? Mewn ymateb, nodwyd ei bod yn debygol bod y mwyafrif llethol o'r 121 o ofalwyr ifanc sy'n derbyn cefnogaeth yn defnyddio'r cerdyn, ond y gellid dod yn ôl at yr aelod gyda'r union ffigwr.

Holwyd faint o gydweithio sy'n digwydd rhwng y Cyngor a mudiadau sy'n cefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl yng nghefn gwlad, megis y DPJ Foundation a Tir Dewi. Mewn ymateb, nodwyd na ellid rhoi ateb pendant, ond y gellid dod yn ôl at yr aelod gyda'r wybodaeth. Er hynny, cadarnhawyd bod y Gwasanaeth yn ceisio gweithio mewn partneriaeth gydag unrhyw fudiad sy'n hyrwyddo iechyd meddwl, yn enwedig yng nghefn gwlad.

Gan gyfeirio at dudalen 24 o'r adroddiad, holwyd beth oedd effaith y 9 swydd gwaith cymdeithasol oedd yn wag ar ddiwedd Ionawr. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y Cyngor yn cyflogi tua 150 o weithwyr cymdeithasol a 30-40 o therapyddion galwedigaethol, a gellid darparu'r union ffigurau ar gyfer yr aelod.
- Bod y swyddi gweigion yn creu her i'r Gwasanaeth o ran cyrraedd pobl sy'n galw am wasanaeth ac yn galw am asesiad, ond y llwyddir i wneud hynny gyda' gweithwyr cymdeithasol, gan nad oes gennym ddewis arall.

- Bod yna bob mathau o bethau eraill yn mynd ymlaen yn y cefndir, megis y sefyllfa o ran hyfforddiant, a faint o fyfyrwyr sy'n mynd ymlaen i hyfforddi i fod yn weithwyr cymdeithasol.
- Ei bod yn her fawr cael myfyrwyr i fynd i Brifysgol Bangor i ddilyn y cwrs gwaith cymdeithasol, a bod hynny'n wir am y cwrs Therapi Galwedigaethol hefyd.
- Bod gan y Cyngor 4 hyfforddai therapi galwedigaethol ar hyn o bryd a tua 6 hyfforddai gwaith cymdeithasol hefyd ar unrhyw adeg. Roedd hynny'n helpu i lenwi'r bwlch rhyw gymaint, ond roedd y galw am y gwasanaeth yn cynyddu.
- Gan fod gallu'r Adran i ddarparu'r asesiadau yn mynd yn fwy heriol, penderfynwyd buddsoddi ychydig mwy mewn gweithwyr sydd heb y cymhwyster, ond sy'n gweithio gyda'r ymarferwyr cymwysedig ac sy'n gallu ymgymryd â rhai o'r dyletswyddau ysgafnach er mwyn sicrhau bod modd i bobl gael eu gweld yn gynt, a'u diogelu.
- Bod yr heriau recriwtio gofalwyr hyd yn oed yn fwy dwys a dyna pam bod nifer y swyddi gweigion mor uchel yn yr Adran Oedolion. Er gwaethaf y cynnydd diweddar yng nghyflogau gofalwyr, roedd yna lai o bobl ar gael yng Ngwynedd i wneud y math yma o waith, ac ni fyddai'n bosib' darparu gofal i bob un person yng Ngwynedd am y blynyddoedd i ddod.
- Bod angen edrych ar ddulliau amgen o ddarparu gwasanaeth i'r dyfodol, megis taliadau uniongyrchol, defnyddio technoleg a roboteg, hyrwyddo mentrau bychain yn y cymunedau a hyrwyddo bod pobl a chymunedau yn edrych ar ôl eu hunain.

Nodwyd yr edrychid ymlaen dros y misoedd nesaf i weld sut mae'r gwaith o arfarnu'r model newydd o ofal cartref yn gweithio.

Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi darlun da o'r Gwasanaeth, ond mai rôl y cynghorwyr oedd mynd ar ôl y pethau sydd ddim yn yr adroddiad. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r 40 o gwynion a dderbyniwyd am y gwasanaeth, er yn cydnabod bod hynny'n nifer fechan o gymharu â faint o waith sy'n cael ei gyflawni, a holwyd sut roedd yr Adran yn delio â'r cwynion hynny. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Na gytunid bod yr adroddiad yn cyfleu darlun glan perffaith o'r Gwasanaeth a bod yr ystadegau brawychus wedi'u cynnwys yna er mwyn tynnu sylw at yr heriau. Nid oedd lle i ymfalchïo yn rhai o'r ystadegau. Roedd angen gwneud mwy, ac roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyffredinol wedi ymrwymo i wneud mwy.
- Bod trefn gwynion statudol yn ei lle er mwyn sicrhau ein bod yn derbyn adborth, ac yn ymateb i unrhyw bryderon fel nad ydym yn ail-adrodd camgymeriadau.
- Bod 2 swyddog yn gweithio'n benodol yn y maes cwynion - un yn yr Adran Plant ac un yn yr Adran Oedolion.
- Bod adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi ar y cwynion, a gellid rhannu hynny gyda'r aelodau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2022/23

Cyflwynodd Cadeirydd y Fforwm Craffu, y Cynghorydd Beth Lawton, adroddiad blynyddol craffu ar gyfer 2022/23. Diolchodd i'r cadeiryddion ac is-gadeiryddion craffu a'r holl aelodau craffu am eu gwaith yn ystod y flwyddyn. Diolchodd hefyd i swyddogion y Gwasanaeth am gefnogi'r aelodau a llunio'r adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

Holwyd a oedd cyfeiriad yn yr adroddiad at adolygiad Archwilio Cymru o effeithiolrwydd craffu yng Ngwynedd. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd yr adroddiad wedi'i gyhoeddi eto, ac y byddai ar gael yn fuan ym mis Hydref.

Nodwyd nad oedd yr Adroddiad Blynyddol yn dangos effeithiolrwydd y craffu, h.y. sut mae sylwadau'r craffwyr ar adroddiadau neu gynlluniau strategol drafft wedi dylanwadu ar yr adroddiadau / cynlluniau strategol terfynol. Cwestiynwyd beth oedd diben yr Adroddiad Blynyddol oedd gerbron a holwyd pryd fyddai'r aelodau'n derbyn adroddiad sy'n edrych ar wir effeithiolrwydd y craffu. Mewn ymateb nodwyd:-

- Mai un cynnig i wella sy'n cael ei adnabod yn y fersiwn drafft o adroddiad Archwilio Cymru yw'r union bwynt yma, sef olrhain effaith y craffu sy'n digwydd.
- Bod bwriad i gynnal adolygiad mewnol o'r trefniadau craffu yn yr hydref. Byddai drafft o amserlen ar gyfer cynnal yr adolygiad yn cael ei gyflwyno i'r Fforwm Craffu cyn diwedd y mis, ac yn sicr, byddai olrhain effaith craffu yn rhan o'r ystyriaeth yn ystod yr adolygiad yna hefyd.

Gan fod yr Adroddiad Blynyddol yn rhestru rhai o'r sylwadau a wnaed gan aelodau wrth drafod gwahanol faterion, awgrymwyd y byddai'n synhwyrol defnyddio'r sylwadau hynny fel man cychwyn ar gyfer gwaith y flwyddyn ganlynol, fel bod yr adrannau yn gallu dod yn ôl ymhen 6 mis neu flwyddyn gyda diweddariadau ar y prif faterion a godwyd gan y craffwyr y flwyddyn cynt. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod sylwadau o'r fath bob amser o gymorth, a phetai gan yr aelodau unrhyw syniadau gwahanol o ran sut i gael mwy o werth o'r adroddiadau, diau y byddai'r swyddogion yn cymryd hynny i ystyriaeth y flwyddyn nesaf.
- Y cytunid bod lle i wella, a bod angen gwneud gwell defnydd o'r eitem sefydlog '*Materion yn codi o Drosolwg a Chraffu'* ar raglenni cyfarfodydd y Cabinet, gan adrodd yn ôl i'r pwyllgorau craffu ar ganlyniad trafodaethau'r Cabinet.

Nodwyd y ceid ymdeimlad bod y gyfundrefn graffu bresennol wedi'i chreu er mwyn cadw grym mewn un lle, ac er bod rhyddid i'r craffwyr drafod gwahanol faterion, ni welid y cyswllt rhwng y trafodaethau hynny a newidiadau mewn polisi. Mewn ymateb, nodwyd bod yr aelodau newydd ar y Cyngor wedi gallu ychwanegu llawer at y gyfundrefn graffu, ac yn yr hydref, gellid dwyn syniadau a sylwadau'r aelodau, ynghyd â sylwadau Archwilio Cymru at ei gilydd, gan edrych oes yna ffordd o wella'r llinyn aur rhwng y craffu a'r penderfynu.

Nododd cyn-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal ei fod o'r farn bod y Pwyllgor yn gwneud gwahaniaeth, a chyfeiriodd at y gwaith o ran denu staff ac amlygu diffygion yn y Gwasanaeth Ambiwlans a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel enghreifftiau o'r hyn a gyflawnwyd gan y pwyllgor dros y 2 flynedd ddiwethaf.

Holwyd faint o newidiadau sydd wedi digwydd yn sgil craffu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Awgrymwyd hefyd na ddylem orfod disgwyl i Archwilio Cymru ddod yn ôl, ac y dylai'r data fod ar flaenau ein bysedd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Na ellid rhoi union ffigwr yn y fan a'r lle, ond bod yna newidiadau wedi digwydd yn sgil craffu, er o bosib' nad oedd hynny wedi'i adrodd yn ôl yn ffurfiol drwy'r gyfundrefn graffu.
- Bod angen rhoi gwybod i'r aelodau sut mae craffu wedi gwneud gwahaniaeth, ac y byddai'r wybodaeth yn cael ei chasglu a'i rhannu gyda'r aelodau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**10. DIWYGIO CYNLLUN HAWLIAU DIRPRWYEDIG SWYDDOGION**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn manylu ar ddiwygiadau i'r Cynllun Dirprwyo a gymeradwywyd gan y Cabinet.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 11. ABSENOLDEB AELOD O GYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Eirwyn Williams o gyfarfodydd yr awdurdod oherwydd gwaeledd er mwyn ei alluogi i barhau i fod yn aelod yn unol â'i ddymuniad.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Eirwyn Williams o gyfarfodydd y Cyngor am gyfnod o 6 mis o ddyddiad y cyfarfod hwn oherwydd amgylchiadau personol, yn unol ag Adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 1972, gan ei alluogi i barhau i fod yn aelod o Gyngor Gwynedd.**

## 12. RHYBUDDION O GYNNIG

## 12(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ELFED WYN AP ELWYN

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Bod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli'r grymoedd dros gyfiawnder (Y Llysoedd, Carchardai, Yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf, a grymoedd eraill ynghlwm) a chreu Awdurdodaeth Gyfreithiol i Gymru.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Mai Cymru yw'r unig wlad yn y byd sydd â'r gallu i greu deddfau, ond heb awdurdodaeth gyfreithiol ei hun, a bod y cymhlethdod sy'n codi o'r drefn yma'n golygu bod trafferthion yn codi rhwng y Senedd a San Steffan, gyda'r polisïau'n croesi ar faterion allweddol, a'r Senedd yn defnyddio ei chyllid i dalu am wasanaethau nad oes ganddi rym drostynt, yn ogystal ag achosion llys drudfawr.
- Bod llawer iawn o newidiadau negyddol wedi bod ynglŷn â'r system gyfreithiol yng Nghymru dros y ddegawd ddiwethaf, gyda 23 o lysoedd y goron / ynadon yn cau, sy'n golygu bod mwy o bobl yn gorfod teithio ymhellach am gyfiawnder, yn enwedig pobl sy'n byw mewn cymunedau ac ardaloedd gwledig. Hefyd, mae torri'r cymorth cyfreithiol i bobl sydd mewn angen yn golygu bod llawer yn dioddef problemau iechyd ac iechyd meddwl o boeni am achosion yn y llys, ac mae hynny, yn ei dro, wedi arwain at fwy o straen ar y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol.
- Y byddai datganoli'r grymoedd dros gyfiawnder a chreu cyfundrefn newydd yn golygu y gallai Cymru fynd ar drywydd gwahanol i ddatblygu'r gwasanaeth cyfreithiol i fod yn well i bobl Cymru. Mae gan yr Alban a Gogledd Iwerddon eu hawdurdodaeth gyfreithiol eu hunain, yn ogystal ag Ynys Manaw, Jersey a Guernsey; mae hyd yn oed ardaloedd yn Lloegr gyda mwy o rym dros elfennau o'r gyfraith na Chymru. Mae'n bryd i'n cenedl gael yr un grym i symud ymlaen er mwyn gwaredu'r sefyllfa gymhleth sy'n bodoli rŵan.
- Y credid ei bod yn bwysig bod y cynghorwyr yn gwthio'r materion cenedlaethol yma er lles pobl y wlad, ac wrth i ni ddod a'r materion yma gerbron y Cyngor, mae'n cychwyn sgyrsiau allweddol, sy'n symud ein cymunedau ymlaen a chreu systemau sy'n gweithio i ni.

Mynegodd nifer o aelodau eraill gefnogaeth i'r cynnig gan nodi:-

- Bod hyn yn wall sylfaenol yn y ffordd mae Cymru'n gweithio a'i bod yn hanfodol bod ein system gyfreithiol yn adlewyrchu ein gwerthoedd a phwy ydym ni fel Cymry.
- Ein bod angen y grym dros, nid yn unig hyn, ond popeth, a'n bod angen edrych ar ôl ein hunain fel gwlad a chael annibyniaeth i Gymru.
- Bod cynnig gan Gyngor Gwynedd yn galw am annibyniaeth i wahanol systemau / gweinyddiaethau yn gam sicr ac angenrheidiol ymlaen.
- Nad oedd yn anarferol, dan y drefn bresennol, i achosion llys gael eu symud ar fyr-rybudd o'r llys yng Nghaernarfon i Gaer.
- Bod gennym yr isadeiledd, y llysoedd, ac ati, yng Nghymru, ond bod yr hen system sy'n rheoli'r cyfan yn Lloegr.
- Bod yr ystadegau'n profi nad yw'r system gyfiawnder sy'n cael ei rheoli o San Steffan yn gweithio o gwbl, h.y.:-
  - Canran y bobl sy'n ail-droseddu yn fuan ar ôl gadael y carchar – 25% - 30%
  - Canran y bobl sy'n ail-droseddu ar ôl bod yn y carchar am lai na 12 mis – 54%
  - Y grŵp sydd fwyaf tebygol o ail-droseddu - dynion ifanc 15-17 mlwydd oed
- Bod gwaith ymchwil gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru yn amlygu anghyfartaledd difrifol rhwng y maes cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr. Credid hefyd bod yna lai o droseddu, ond mwy o garcharu yng Nghymru, yn enwedig merched, am ryw reswm.
- Bod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gwneud gwaith gwych yn cadw pobl ifanc Gwynedd allan o garchar drwy eu cefnogi yn eu cymunedau, ond bod eu gwaith yn ddarostyngedig i 2 set o reolau – rheoliadau Lloegr a rheoliadau / gweithdrefnau Cymru hefyd.
- Nad oedd gan yr Arolygiaeth fu'n arolygu'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ddiweddar siaradwyr Cymraeg, ac mai'r unig ateb, er mwyn parchu ein hawliau, ein hawliau iaith, ymateb i anghenion iaith ac anghenion eraill yn ein cymunedau yng Nghymru yw cael un system gyfiawnder i Gymru.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Bod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli'r grymoedd dros gyfiawnder (Y Llysoedd, Carchardai, Yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf, a grymoedd eraill ynghlwm) a chreu Awdurdodaeth Gyfreithiol i Gymru.**

**13. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – Llythyr gan Drafnidiaeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Huw Rowlands i gyfarfod 1 Rhagfyr 2022 o'r Cyngor ynglŷn â gwella gwasanaethau trenau yng Ngwynedd.

Nododd y Cadeirydd ei fod yn gwerthfawrogi'r ymateb, ond yn siomedig ei fod wedi cymryd cyhyd.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30 y.h. a daeth i ben am 4.00 y.h.

______________________________

**CADEIRYDD**